Eisteddfod Gadeiriol Y Llungwyn Llanuwchllyn 2019

Cynhaliwyd Eisteddfod 2019 ar 25 o Fai yn y Neuadd Bentref ar benwythnos braf. Cafwyd Pabell Lên yn ystod y bore Gwener yn Ysgol O. M. Edwards, pryd y traddodwyd beirniadaethau'r gwaith cartref cynradd. Yna, ar y Dydd Sadwrn bu cystadlu brwd a graenus yn ystod cyfarfodydd y bore, prynhawn a'r hwyr. Braf iawn oedd gweld cynulleidfa deilwng a gwerthfawrogol wedi dod i fwynhau gwledd o gystadlu.

Ein beirniaid am eleni ac yn derbyn ein diolch diffuant oedd Robyn Lyn Evans, Aberhosan (Cerdd), Iwan Morgan, Llan Ffestiniog (Cerdd Dant a Barddoniaeth Agored), Steffan Parry, Pwllglas (Adrodd), Alwyn Evans Jones, Llanuwchllyn (Barddoniaeth Cynradd ac Uwchradd), Dwyryd Williams, Dolgellau (Rhyddiaith) a Nia Davies, Frongoch (Arlunio a Chrefft). Y llywyddion gwadd oedd Ceri Ellis, Hen Golwyn a Dennis Brace Jones, Corris. Yn anffodus nid oedd Ceri yn medru mynychu ar y diwrnod ond diolch yn fawr i'r ddau ohonynt am dderbyn y gwahoddiad ac am eu geiriau ac anerchiad difyr, a rhoddion anrhydeddus at drysor yr Eisteddfod.

Diolch i Dilys Ellis-Jones, Dafydd Williams, Eirian Roberts, Euros Roberts a Carwyn Siddall am arwain y cyfarfodydd mor esmwyth a didrafferth. Diolch yn arbennig i'r cyfeilyddion, sef Siwan Davies, Elain Wyn Jones, Eirian Owen fu'n ddiwyd iawn yn ystod y cyfarfodydd.

Yr oedd Cadair yr Eisteddfod eleni yn rhoddedig gan deulu'r Eagles, Llanuwchllyn, a diolch iddynt am y Gadair hardd ac am eu cefnogaeth yn ehangach i'r gymuned. Braf oedd cael clywed gan Iwan Morgan wrth draddodi o'r llwyfan fod teilyngdod o blith y 6 ymgais. Siân Meinir yn wreiddiol o Ddolgellau ond bellach yn byw ym Mhenarth gipiodd Cadair y Llungwyn, am gerdd ar y testun "Sibrydion". Cafwyd cyfarchion barddonol gan Beryl H. Griffiths, Alan Jones Evans a Gruffudd Antur. Diolch i Carwyn am fod yn Feistr y Ddefod a diolch arbennig i Gwynant Roberts ac Arfon Griffiths am eu dehongliad unigryw o Gân y Cadeirio.

Diolch yn fawr i Gwyneth Parry am addurno'r llwyfan mor hardd gyda blodau, ac i Gyfeillion Ysgol O M Edwards am fod yng ngofal y bwyd, gan sicrhau fod digon o luniaeth blasus i bawb trwy gydol y dydd. Bu nifer wrthi yn ddiwyd cyn yr Eisteddfod yn gwerthu Tocynnau Noddwr - diolch yn fawr iawn i'r gwerthwyr ar prynwyr! Diolch hefyd i'r stiwardiaid am werthu tocynnau wrth y drws a chadw trefn trwy gydol y dydd ac i Casi, Swyn a Mari fu'n ngofal y rhubanau ar ochr y llwyfan.

Gwerthfawrogwn unwaith yn rhagor gymorth a chefnogaeth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, Cronfa'r Degwn Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Dr D. Tecwyn Lloyd. Diolch yn arbennig hefyd i Nerys a Nia (Henryd gynt) ac i deulu Gwernhefin am eu caredigrwydd arferol a'u rhoddion gwobrau.

Yn dilyn llwyddiant y gweithdai sydd wedi eu cynnal dros y blynyddoedd fe gomisiynodd y Pwyllgor weithdai barddoniaeth eleni gyda chymorth Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Cymuned Llanuwchllyn i rai o ddisgyblion Ysgol O. M Edwards ac Ysgol y Berwyn. Braf yw cael dweud fod y gweithdai wedi bod yn llwyddiant unwaith eto gan ddenu nifer fawr o gyfansoddiadau i'r Adran. Yr ydym yn hynod ddiolchgar i Anni Llŷn am fod yng ngofal y gweithdai ac am ysbrydoli ein beirdd ifanc i gystadlu a chefnogi'r Eisteddfod.

Cyn Defod y Cadeirio, cafwyd cyfle i gydnabod a diolch i Gwenfair D. Jones oedd yn ymddeol fel Llywydd yn dilyn blynyddoedd maith o wasanaeth i'r pwyllgor, ac i ddymuno yn dda i Ann E. Jones yn y swydd. Diolch i'r Trysorydd, Dylan Evans am ei waith trylwyr a diymhongar a gweddill aelodau'r pwyllgor fu'n dewis darnau a chynorthwyo – braf oedd gweld wynebau newydd yn ymuno eleni a gobeithio y daw mwy yn yr Hydref i gefnogi a chynorthwyo gyda gwaith y pwyllgor. Rhaid hefyd yw estyn ein gwerthfawrogiad yn ôl yr arfer i'r Pennaeth, staff a chymorthyddion Ysgol O. M. Edwards am eu cefnogaeth a chydweithrediad parod bob amser.

Yn olaf carem fel Pwyllgor ddiolch i'r cystadleuwyr, rhieni a hyfforddwyr o bell ac agos ddaeth i gystadlu a chefnogi Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn eto eleni. Dyma'r buddugwyr (o Lanuwchllyn, Llangower neu Parc oni noder yn wahanol): -

Cerdd

Meithrin: 1af Emrys Jarman, 2il Caradog Jones, 3ydd Magi Davies; **Derbyn:** 1af Ifan Alun Jones, 2il Ollie Sewards, 3ydd Daniel Jones; **Bl. 1 a 2:** 1af Annie Blain; 2il Ifan Roberts, 3ydd Blodwen Jones a Math Jones; **Bl. 3 a 4:** 1af Deio Emlyn Edwards, 2il Lia Rowlands, 3ydd Brychan Edwards; **Bl. 5 a 6:** 1af Lowri Jarman, 2il

Lliwen Jones, 3ydd Martha Williams, Llansannan; **Deuawd dan 12:** 1af Lowri Jarman a Cadi Williams; 2il Lliwen ac Elias Jones; **Côr neu Barti dan 12 oed:** 1af Parti'r Ysgol; **Côr neu Barti dan 16 oed:** 1af Parti'r Aran; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Lois Hughes, Rhydymain, 2il Erin Llwyd, Glanrafon, 3ydd Cadog Edwards a Morgan Jones; **Dan 19 oed:** 1af Erin Swyn, Llannefydd, 2il Lois Hughes; **Cân o Sioe Gerdd dan 30 oed:** 1af Lois Hughes, 2il Erin Swyn, 3ydd Pwyll Edwards; **Canu Emyn Agored:** 1af Brynmor Jones, Caernarfon; 2il Pwyll Edwards; 3ydd Aled Jones, Comins Coch; **Unawd Gymraeg:** 1af Robert Wyn Roberts, Bontnewydd, 2il Erin Swyn; 3ydd Aled Jones, **Y Brif Unawd:** 1af Robert Wyn Roberts; **Prif Gystadleuaeth Gorawl, Cymysg, Meibion neu Ferched:** 1af Eryrod Meirion, 2il Côr y Gwyniad, Côr Peniel; **Unawd ar unrhyw offeryn cerdd Bl. 4, 5 a 6:** 1af Teilo Daley-Tyson, 2il Liwen Jones a Cadi Williams; **Unawd ar unrhyw offeryn cerdd Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Swyn Elin Davies.

Cerdd Dant
Bl. 1 a 2: 1af Blodwen Jones, 2il Ifan Roberts**; Bl. 3 a 4:** 1af Deio Emlyn Edwards, 2il Brychan Edwards, 3ydd Rhys Tomos Roberts, Elias Jones a Lia Rowlands; **Bl. 5 a 6:** 1af Lowri Jarman, 2il Owen Dafydd Roberts, 3ydd Martha Williams; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Erin Llwyd, 2il Cadog Edwards; **Côr neu Barti dan 12 oed:** 1af Parti'r Ysgol; **Unawd Agored:** 1af Erin Swyn.

Adrodd
Meithrin: 1af Caradog Jones, 2il Beca Jones, 3ydd Malen Roberts; **Derbyn:** 1af Ifan Alun Jones, 2il Daniel Jones, 3ydd Ollie Sewards; **Bl. 1 a 2:** 1af Ifan Roberts, 2il Annie Blain, 3ydd Cai Creighton, Y Bala; **Bl. 3 a 4:** 1af Deio Emlyn Edwards, 2il Hari Owen, 3ydd Brychan Edwards; **Bl. 5 a 6:** 1af Martha Williams, 2il Cynan Roberts, 3ydd Lowri Jarman a Guto Edwards; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Cadi Jones, Glanrafon; 2il Erin Llwyd, 3ydd Cadog Edwards. **Cyd-Adrodd dan 12 oed:** 1af Parti'r Ysgol; **Cyd-Adrodd dan 16 oed:** 1af Parti'r Aran; **Llefaru Digri:** Rhys Jones, Corwen; **Adrodd Agored:** 1af Rhys Jones, Corwen.

Barddoniaeth
Bl. 3 a 4: 1af Lois Alaw Williams, Manod, Blaenau Ffestiniog, 2il Blodwen Jones ac Elis Dafydd, 3ydd Tomos Trow a Lleu Llwyd Roberts; **Bl. 5 a 6:** 1af Lleucu Puw Jones, Rhuthun, 2il Calum Jones a Lowri Jarman, 3ydd Cadi Williams a James Sewards; **Barddoniaeth Ysgol Uwchradd:** 1af Gruffudd Emrys ab Owain, Bala, 2il Beca Meini Lloyd, Llanfor a Lliwen Grug Williams, Gwyddelwern; 3ydd Robin Mac, Rhosygwaliau a Cadi Fflur Jones, Glanrafon; **Cadeirio:** Sian Meinir, Penarth; **Soned:** 1af John Meurig Edwards, Aberhonddu; 2il Menna Medi, Groeslon; **Englyn:** 1af Alan Jones Evans, Rhyduchaf, 2il Gareth Charles; **Telyneg:** 1af Nest Gwilym, Caerdydd, 2il John Meurig Edwards; **Cerdd:** 1af Branwen Haf Williams; 2il Mary B Morgan, Ceredigion.

Rhyddiaith
Derbyn: 1af Bedwyr Evans, Y Bala, 2il Casi Non Jones, 3ydd Ifan Alun Jones; **Bl. 1:** 1af Ania Jones, 2il Elen Aur Roberts, 3ydd Gruff Owen ac Osian Rowlands; **Bl. 2**: 1af Grisial Jones, 2il Cai Creighton; 3ydd Annie Blain; **Bl. 3 a 4:** 1af Martha Eiry Bowen, Cynwyl Elfed, 2il Lois Alaw Williams, 3ydd Jac Jones a Seth Edwards; **Bl. 5 a 6:** 1af Lleucu Hughes, 2il Greta Fflur Bowen, Cynwyl Elfed a Beca Dwyryd, Porthmadog, 3ydd Cadi Williams a Caili Thomas; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Swyn Davies; **Dan 21 oed:** 1af Deio Owen, Pwllheli; **Agored: Stori Fer:** 1af Megan Richards, Aberaeron, 2il Megan Richards, 3ydd Branwen Haf Williams; **Agored: Ymson:** 1af John Meurig Edwards, 2il Swyn Melangell, Dinas Mawddwy, 3ydd Grffith Richard Williams, Groeslon; **Y Prif Draethawd:** 1af Awel Jones, 2il Beryl H. Griffiths.

Arlunio
Meithrin (Cylch): 1af Enfys Jones, 2il Eurwen Huws, 3ydd Ianto Owen; **Meithrin (Ysgol):** 1af Emyr Jarman, 2il Ruby Dodd a Lleucu Gwen Horan, 3ydd Tegid Gwent; **Derbyn:** 1af Ifan Alun Jones, 2il Enoc Ellis-Edwards, 3ydd Dafi Pritchard a Dyfrig Huws; **Bl. 1 a 2**: 1af Blodwen Jones, 2il Annie Blain, 3ydd Millie Dodd; **Bl. 3 a 4:** 1af Ilan Edwards, 2il Elliw Pugh, 3ydd Amy Sewards; **Bl. 5 a 6:** 1af Lliwen Jones, 2il Twm Roberts, 3ydd Nedw Rhys Jones ac Owen Anthony Jones; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Mari Ifan Davies a Swyn Elin Davies; **Agored:** 1af Eirlys Roberts Jones, 2il Eirlys Roberts Jones.

Crefft
Meithrin: 1af Greta Williams, 2il Ianto Owen, 3ydd Wini Edwards; **Derbyn:** 1af Seren Glyn Jones, 2il Malen Roberts a Willow Smith, 3ydd Tegid Gwent ac Efan Dafydd; **Bl. 1 a 2:** 1af Blodwen Jones, 2il Mabon Jones, 3ydd Elen Aur Roberts; **Bl. 3 a 4:** 1af Martha Evans, 2il Amy Sewards, 3ydd Hari Owen ac Elias Jones; **Bl. 5 a 6:** 1af

Nedw Rhys Jones, 2il Twm Roberts, 3ydd Teilo Daley-Tyson a James Sewards; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Mari Ifan Davies, 2il Swyn Elin Davies.

Tlysau a Thariannau

Barddoniaeth Cynradd: Lleucu Puw Jones; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Ryddiaith (Tlws er côf am Mr a Mrs Gwyndaf Davies):** John Meurig Edwards; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Adrodd dan 16 oed (Cwpan er côf am Eilir Wyn Parry, Y Wern):** Cadi Jones; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Cerdd neu Gerdd Dant (Cwpan er côf am Mrs Enid Pierce Jones):** Erin Llwyd**; Cystadleuydd mwyaf addawol yn yr Adran Cerdd, Cerdd Dant neu Adrodd rhwng 16 a 30 oed (Cwpan er côf am Elin Mair Jones):** Erin Swyn; **Canu Emyn Agored (Cwpan Goffa D. Lloyd Jones):** Brynmor Jones.